Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Y Gilwen**

**Caernarfon**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

07/05/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Y Gilwen

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Prestwood Residential Homes Ltd a CareTech Community Services Limited. |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 06 Medi 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn hapus yn byw yn y gwasanaeth, ac maent yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt er mwyn cyflawni eu canlyniadau unigol. Caiff anghenion y bobl eu trafod â nhw a'u cydgysylltwyr gofal, cyn iddynt symud i'r gwasanaeth. Mae gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i'r bobl am y gwasanaeth a ddarperir, fel y gallant benderfynu a hoffent fyw yno. Caiff y cynlluniau personol eu creu gyda'r bobl, maent yn cofnodi'r hyn sy'n bwysig iddynt a sut y maent yn dymuno cael eu cefnogi. Ni chaiff y dogfennau hyn eu cwblhau'n brydlon bob amser, ac mae angen gwella'r maes hwn o'r gwasanaeth. Defnyddir asesiadau risg i annog unigolion i gymryd risgiau cadarnhaol, wrth sicrhau bod mesurau ar waith i gadw'r bobl mor ddiogel â phosibl ar yr un pryd.

Mae'r amgylchedd yn gartrefol, mewn cyflwr da ac yn ddiogel. Mae gwaith cynnal a chadw parhaus yn cael ei wneud sy'n golygu bod y cartref yn gyfforddus ac yn edrych yn dda. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd eu hunain er mwyn adlewyrchu eu diddordebau a'u chwaeth. Ar y cyfan, caiff risgiau iechyd a diogelwch yn yr amgylchedd eu nodi a'u rheoli.

Mae'r gweithwyr gofal yn mwynhau eu gwaith ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr. Caiff gwiriadau addasrwydd eu cwblhau fel rhan o'r broses recriwtio ar gyfer gweithwyr gofal newydd. Darperir hyfforddiant a sesiynau goruchwylio priodol. Mae trefniadau ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth yn rheolaidd ac mae'r bobl yn cael eu cynnwys yn yr adolygiadau o ansawdd y gofal.

## Llesiant

Mae'r bobl yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir ac mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r gweithwyr gofal. Gwelsom fod y bobl yn gallu ymlacio yng nghwmni'r gweithwyr gofal a'u bod yn teimlo'n gyfforddus wrth ofyn am gymorth pan fydd ei angen arnynt. Gall y bobl fynegi eu hanghenion yn eu dewis iaith oherwydd bod y rheolwr a sawl gweithiwr gofal yn gallu sgwrsio'n ddwyieithog. Mae'r gweithwyr gofal yn gwrando ac yn siarad â'r bobl mewn modd parchus. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hoffi eu hamgylchedd byw ac y gallant wneud eu dewisiadau eu hunain o ran cynllun a décor eu hystafelloedd eu hunain. Mae hyn yn helpu'r bobl i deimlo'n gartrefol yn y gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth yn hwyluso cyfleoedd i'r bobl wneud pethau y maent yn eu mwynhau yn ogystal â meithrin eu sgiliau annibyniaeth. Caiff y bobl eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol sydd o ddiddordeb iddynt. Mae hyn hefyd yn golygu y gall unigolion deimlo'n rhan o'u cymuned. Caiff camau i gynyddu hyder ac annibyniaeth y bobl eu hannog. Mae'r amgylchedd yn y cartref gofal yn cynnwys dyfeisiau sgiliau bywyd dyddiol, megis ceginau a chyfleusterau golchi dillad, sy'n galluogi'r bobl i wneud cymaint drostynt eu hunain â phosibl. Mae'r gweithwyr gofal yn gyfarwydd â galluoedd y bobl yn ogystal â'r canlyniadau y maent am eu cyflawni.

Mae'r gwasanaeth yn gwybod pa ofal a chymorth sydd eu hangen ar y bobl cyn iddynt gyrraedd y cartref. Mae hyn yn sicrhau y gall y bobl fod yn hyderus bod y rheolwr wedi ystyried a yw'r cartref gofal yn lle addas iddynt ac a all ddiwallu eu hanghenion. Fodd bynnag, nid yw anghenion gofal a chymorth penodol y bobl bob amser yn cael eu hysgrifennu yng nghynlluniau personol y bobl mewn modd amserol. Mae hyn yn golygu bod risg na fydd y gweithwyr gofal bob amser yn darparu'r gofal a'r cymorth cywir i'r bobl. Mae hwn yn faes o'r gwasanaeth y mae angen ei wella.

Mae'r bobl yn cyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae dogfennau gofal yn dangos bod yr unigolion yn rhan o'r gwaith o gynllunio sut yr hoffent gael eu cefnogi, a chaiff eu safbwyntiau a'u teimladau eu cofnodi. Mae pob person yn penderfynu sut mae am dreulio ei amser a chaiff ei arferion dyddiol dewisol eu parchu. Pan nad yw pobl yn gallu gwneud penderfyniadau am faterion pwysig bywyd, gwneir trefniadau ar gyfer rhoi cymorth ffurfiol priodol ar waith. Mae hyn yn sicrhau mai dim ond er lles pennaf y bobl y caiff penderfyniadau eu gwneud, pan nad oes unrhyw opsiynau eraill ar gael. Caiff safbwyntiau'r bobl eu casglu a'u hystyried fel rhan o brosesau i fonitro'r gwasanaeth a ddarperir ac wrth ystyried datblygiad y gwasanaeth yn y dyfodol.

## Gofal a Chymorth

Mae trefniadau ar waith i ddeall anghenion gofal a chymorth y bobl cyn iddynt symud i'r gwasanaeth. Mae'r rheolwr yn sicrhau bod asesiadau sy'n cael eu cwblhau gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r unigolyn yn cael eu casglu fel rhan o'r broses cyn derbyn. Mae'r rheolwr hefyd yn cyfarfod â'r bobl er mwyn egluro'r hyn y gall y gwasanaeth ei ddarparu a thrafod eu disgwyliadau o'r gwasanaeth. Mae hyn yn sicrhau bod y rheolwr yn gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth, gan gadarnhau y gall y gwasanaeth gefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau unigol, wrth gynnig lle i'r bobl.

Nid oes cynlluniau personol ar waith bob amser i gofnodi pa gymorth sydd ei angen ar bob person er mwyn diwallu ei anghenion gofal. Gwelsom nad oedd dogfennau gofal wedi cael eu cwblhau'n llawn ar gyfer pob person sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae hyn yn golygu nad oes gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i'r gweithwyr gofal bob amser er mwyn rhoi arweiniad iddynt o ran pa gymorth y dylent ei ddarparu i'r bobl, a sut. Gallai hyn effeithio ar y parhad gofal y mae'r bobl yn ei gael. Roedd y rheolwr yn ymwybodol bod hwn yn faes o'r gwasanaeth y mae angen mynd i'r afael ag ef. Mae cynlluniau personol yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae'r cynlluniau personol sydd wedi'u cwblhau yn dangos bod y bobl yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau am sut yr hoffent gael eu cefnogi. Mae'r dogfennau gofal yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i'r bobl, eu hoff bethau a'u cas bethau a'r canlyniadau penodol maent yn dymuno eu cyflawni. Defnyddir asesiadau risg i reoli risgiau hysbys i iechyd a diogelwch y bobl, wrth eu galluogi i wneud penderfyniadau ynghylch sut yr hoffent fyw eu bywydau.

Gall y bobl gael eu gofal a'u cymorth yn eu dewis iaith. Cofnodir dewis iaith pob person yn ei ddogfen gofal a chydnabyddir bod hyn yn rhan bwysig o'i hunaniaeth. Gall y rheolwr a rhai o'r gweithwyr gofal siarad Cymraeg. Mae hyn yn golygu y gellir darparu cymorth yn newis iaith y bobl, boed hynny yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth. Mae polisi diogelu ar waith ac mae'r gweithwyr gofal yn cwblhau hyfforddiant perthnasol. Mae'r gweithwyr gofal yn hyderus ynghylch y camau y dylent eu cymryd os bydd ganddynt unrhyw bryderon am les y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae'r rheolwr yn rhoi gwybod am faterion diogelu yn briodol i'r awdurdod lleol a rhoddir gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

## Yr Amgylchedd

Darperir cymorth mewn prif dŷ a dwy fflat hunangynhwysol gyfagos. Gwelsom fod buddsoddiad parhaus yn cael ei wneud yng ngwaith cynnal a chadw'r amgylchedd. Mae hyn yn sicrhau y darperir lle byw cyfforddus sy'n gwella ymdeimlad o werth y bobl. Mae ystafelloedd y bobl wedi'u personoli â'u heiddo eu hunain, sy'n eu galluogi i deimlo'n gartrefol yn eu lle eu hunain. Mae lolfa gymunedol ac ystafell fwyta ar gael yn y prif dŷ lle gall y bobl dreulio amser yng nghwmni eraill, os byddant yn dymuno. Mae gardd yn y gwasanaeth a gwelsom fod gwaith yn mynd rhagddo i wella'r ardal eistedd ar y patio. Mae cysgodfa ysmygu ar gael i'r rhai y mae angen y cyfleuster hwn arnynt.

Mae'r cyfleusterau a ddarperir yn cefnogi'r bobl i fod yn fwy annibynnol. Mae cegin ar gael yn y prif dŷ, ac yn y ddwy fflat, fel y gall y bobl fagu hyder wrth baratoi eu prydau eu hunain. Mae'r gweithwyr gofal yn cynnig cymorth gyda'r dasg hon, drwy helpu i siopa bwyd a chynllunio prydau, os bydd angen. Mae cyfleusterau golchi dillad ar gael yn y prif dŷ a'r ddwy fflat fel y gall y bobl gynyddu eu sgiliau bywyd. Mae'r gweithwyr gofal yn cymell ac yn annog y bobl i gwblhau eu tasgau golchi dillad. Darperir mwy o gymorth pan fydd angen.

Yn yr arolygiad blaenorol nodwyd gennym nad oedd mesurau ar waith bob amser i leihau'r risgiau iechyd a diogelwch yn yr amgylchedd. Yn yr arolygiad hwn, nodwyd gennym fod gwelliannau wedi cael eu gwneud a bod risgiau iechyd a diogelwch yn yr amgylchedd yn cael eu rheoli'n briodol ar y cyfan. Mae dyfeisiau trydanol a nwy yn cael eu profi'n rheolaidd, fel sy'n ofynnol. Mae mesurau diogelwch tân ar waith, ac mae ymarferion gwagio'r adeilad yn cael eu cynnal. Mae cynlluniau ysgrifenedig ar waith i gofnodi pa gymorth sydd ei angen ar bob person i adael yr adeilad yn ddiogel mewn argyfwng.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i'r bobl am y gwasanaeth a ddarperir. Mae datganiad o ddiben y darparwr yn disgrifio'r gofal a'r cymorth y gellir eu darparu a sut y gwneir hyn yn gywir. Yn yr arolygiad blaenorol nodwyd gennym nad oedd y canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol am y gwasanaeth y gall y bobl ddisgwyl ei gael. Yn yr arolygiad hwn gwelsom fod camau wedi cael eu cymryd ac roedd y ddogfen allweddol hon yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Darperir y wybodaeth mewn ffordd glir sy'n helpu'r bobl i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch a yw'r gwasanaeth yn addas ar eu cyfer nhw. Mae'r canllaw yn cynnwys gwybodaeth am sut i wneud cwyn a sut yr ymatebir i gwynion. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo y gallent godi unrhyw faterion gyda'r gweithwyr gofal a'r rheolwr.

Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod gweithwyr gofal yn cael eu recriwtio'n ddiogel. Mae'r cofnodion yn dangos bod gwiriadau addasrwydd cyffredinol yn cael eu cwblhau cyn i bobl newydd ddechrau gweithio yn y gwasanaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn cwblhau shifftiau cysgodi fel rhan o'u rhaglen sefydlu a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus yn eu rolau pan fyddant yn dechrau gweithio'n annibynnol. Darperir hyfforddiant a dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod hyn wedi gwella eu gwybodaeth a'u sgiliau. Anogir y gweithwyr gofal i gwblhau cymwysterau gofal cymdeithasol ffurfiol ac maent wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu. Mae'r rheolwr yn rhoi sesiynau goruchwylio un-i-un i'r gweithwyr gofal er mwyn trafod eu gwaith ac i nodi unrhyw anghenion hyfforddiant. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau ac y gallant gael arweiniad gan y tîm rheoli bob amser os bydd angen.  Caiff cyfarfodydd tîm eu cynnal yn rheolaidd sy'n rhoi'r cyfle i rannu gwybodaeth a thrafod y gwasanaeth a ddarperir.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth systemau ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn gyson. Mae'r cofnodion yn dangos bod y rheolwr yn archwilio gwahanol feysydd o'r gwasanaeth yn rheolaidd. Ar y cyfan, mae'r system hon yn nodi meysydd o'r gwasanaeth sydd angen sylw prydlon. Cynhelir adolygiadau ffurfiol o ansawdd y gofal bob chwe mis, a chaiff y bobl eu cynnwys yn y broses hon. Mae'r adolygiad yn ystyried i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn galluogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau ac mae'n myfyrio ar yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda. Mae hefyd yn ystyried pa feysydd o'r gwasanaeth y gellir eu gwella a sut y gellir cyflawni hyn. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn casglu safbwyntiau'r bobl am y gwasanaeth y maent yn ei gael. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cofnodi'r adborth a geir a'r camau gweithredu a gymerir mewn ymateb iddynt.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 15 | Nid yw'r cynlluniau personol yn cael eu cwblhau mewn modd amserol bob amser, cyn i'r bobl symud i'r gwasanaeth neu'n brydlon ar ôl hynny. | Newydd |
| 57 | Nid yw'r gwiriadau iechyd a diogelwch yn y gwasanaeth yn gadarn ac nid ydynt yn sicrhau bod risgiau posibl yn yr amgylchedd yn cael eu monitro a'u rheoli'n briodol. | Cyflawnwyd |
| 19 | Nid yw'r Canllaw i Ddefnyddwyr y Gwasanaeth yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y Rheoliadau. | Cyflawnwyd |

### A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 12/06/2024